**Pwyllgor: DATBLYGU ECONOMAIDD EDC-10-99 (p8)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **17 Tachwedd 1999** |
| **Amser:** | **9.00 - 12.30** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol** |
| **Teitl :** | **ADRODDIAD YSGRIFENEDIG CHWARTEROL YSGRIFENNYDD Y CYNULLIAD** |

**Pwrpas**

1. Rhoi i'r Pwyllgor fanylion prif gyllidebau y Prif Grwp Gwariant (MEG) Datblygu Economaidd er gwybodaeth yn unig.

**Crynodeb**

2. Ar gyfer y PGG, yr Is-grwpiau Gwariant (IGGiau) a'r prif Linellau Gwario Cyllideb, mae'r papur yn dangos y llinell sylfaen a ddarparwyd ar gyfer 1999-2000, lefelau gwariant hanner cyntaf y flwyddyn ariannol a'r ffigurau alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn. Cynigir sylwadau hefyd ar bob un a disgrifir sut yr eir ati i gyrraedd y prif dargedau.

**Amseru**

3. Gofynnwyd am y papur er mwyn i'r Pwyllgor gael gwybodaeth mor fanwl â phosibl am sefyllfa'r cyllidebau ar ddiwedd ail chwarter y flwyddyn.

**Cydymffurfio**

4. Y statudau canlynol sy'n ymdrin â gwariant y PGG Datblygu Economaidd:

- Deddf Datblygu Diwydiannol 1982

- Deddf Awdurdodau Datblygu Cymru 1975 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

- Deddf Llywodraeth Leol, Cynllunio a Thir 1980

- Deddf Datblygu Twristiaeth 1969

- Deddf Twristiaeth (Hyrwyddo Dramor) (Cymru) 1992

- Deddf Grantiau, Adeiladu ac Adfywio Tai 1996

- Deddf Llywodraeth Cymru 1998 – Adran 85

5. Mae’r pwerau o dan Adrannau perthnasol y Deddfau hyn wedi’u trosglwyddo i’r Cynulliad neu fel arall caniateir i’r Cynulliad eu harfer. Dirprwywyd yr awdurdod i weithredu’r cynlluniau a’r rhaglenni amrywiol a ariennir gan gyllidebau’r PGG i’r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd ac i swyddogion.

**Cefndir**

6. Ym mis Gorffennaf, rhoddwyd gwybodaeth i’r Pwyllgor am y cyllidebau a oedd dan reolaeth yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd a chawsant fanylion lefelau gwariant pob cyllideb ar ddiwedd y chwarter cyntaf. Y papur hwn yw’r ail adroddiad chwarterol a chaiff un arall ei gyhoeddi ym mis Chwefror ar ddiwedd y trydydd chwarter.

7. Cymer sawl wythnos ar ôl diwedd pob chwarter i grynhoi’r holl ddata ariannol yn fanwl ar y System Gwybodaeth Reoli ac i gofnodi’r gweithgareddau sy’n deillio o’r gwariant hwnnw. Er i ail hanner y flwyddyn ddod i ben ym mis Medi, dyma’r cyfle cyntaf inni ei gael i gyflwyno adroddiad i’r Pwyllgor.

**Golwg Gyffredinol ar y Prif Grwp Gwariant a’i Is-grwpiau Gwariant**

8. Mae’r ffigurau ar gyfer y rhain fel a ganlyn:

| | | **£000oedd** | |
|---|---|---|---|
| **Is-grwp Gwariant** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Cymorth Dethol Rhanbarthol a chymorth i fusnesau | 70,213 | 23,327 | 69,434 |
| Awdurdod Datblygu Cymru | 131,452 | 41,618 | 139,352 |
| Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd | 35,419 | 7,892 | 35,419 |
| Bwrdd Croeso Cymru | 15,436 | 7,970 | 15,436 |
| Cynllun Datblygu Strategol/Her Cyfalaf | 47,693 | 27,464 | 47,693 |
| Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop | 9,046 | 14,396 | 35,000 |
| Datblygu Economaidd eraill | 6,654 | 245 | 8,755 |
| **Cyfanswm** | 315,913 | 122,912 | 351,089 |

9. Mae’r gyllideb gyfan ar gyfer y PGG yn dangos y bydd yr alldro dipyn yn uwch na’r hyn a ddarparwyd. Fodd bynnag, ar gyfer cyllidebau fel Awdurdod Datblygu Cymru, Cronfa

Ddatblygu Ranbarthol Ewrop ac Ymddiriedolaeth Adfywio’r Meysydd Glo (o dan Ddatblygu Economaidd eraill), daw arian ychwanegol trwy hyblygrwydd diwedd blwyddyn o gyllid heb ei wario a gariwyd ymlaen. Ar gyfer cyllidebau eraill na chafwyd cytundeb eto i’w cynyddu, cymerir camau o dan Reol Sefydlog 19 cyn gynted ag y bydd yn glir y bydd gorwariant yn debygol.

**Rhaglenni gweithgaredd a ariennir gan gyllidebau’r PGG Datblygu Economaidd**

10. Ceir disgrifiad byr yn Atodiad A o’r cyllidebau ym mhob Is-grwp Gwariant a’r rhaglenni y maent yn eu hariannu.

**Blaenoriaethau a Gwerthoedd y Cynulliad**

11. Prif amcanion y rhaglenni Datblygu Economaidd yw:

- cynyddu nifer y bobl sy’n economaidd weithredol trwy gynyddu nifer y swyddi sydd ar gael, yn enwedig yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig

- rhoi cymorth a chyngor cydlyn i helpu pobl i ddechrau eu busnesau eu hunain ac i helaethu’r stoc bresennol o fusnesau bach

- cynyddu cynhyrchiant busnesau a’u gallu i gystadlu trwy eu hannog i fod yn fwy blaengar

- codi proffil Cymru trwy dwristiaeth, cynyddu allforion, gwella cysylltiadau rhyngwladol a sicrhau bod llwyddiant Cymru i ddenu projectau mewnfuddsoddi yn parhau

12. Mae rhaglenni Datblygu Economaidd yn ategu blaenoriaeth ddrafft y Cynulliad o sicrhau "**economi well a chryfach**". Wrth gyrchu at y nod hwn, arddelir gwerthoedd "**partneriaeth**" a "**chynhwysiant**". Mae’r gwariant yn cyfateb i’r flaenoriaeth a’r gwerthoedd perthnasol, gweler Atodiad B.

**Datblygiad Is-grwpiau Gwariant**

**a) Cymorth Dethol Rhanbarthol a chymorth arall i fusnesau**

| | | **£000oedd** | |
|---|---|---|---|
| **Is-grwp Gwariant** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Cymorth Dethol Rhanbarthol a chymorth arall i fusnesau | 70,213 | 23,327 | 69,434 |

13. Y prif gyllidebau yn yr IGG hwn yw:

**- Cymorth Dethol Rhanbarthol**

| | | £000oedd | |
|---|---|---|---|
| **Llinell Wario’r Gyllideb** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Cymorth Dethol Rhanbarthol | 63,301 | 21,404 | 65,800 |
| Derbyniadau Cymorth Dethol Rhanbarthol | -100 | -970 | -3,400 |

14. Ar hyn o bryd, mae swyddogion yn amcangyfrif y bydd tua £65.8m wedi’i wario erbyn diwedd y flwyddyn, sy’n fwy na’r hyn y cytunwyd arno. Os daw’n amlwg bod gwariant yn wir yn fwy na’r ddarpariaeth, yna rhaid gweithredu yn unol â Rheol Sefydlog 19. Pan fydd project yn methu, mae’n bolisi fel arfer ceisio adennill cymaint o’r grant a dalwyd â phosibl. Mae eleni’n flwyddyn eithriadol gan ein bod yn ceisio adennill sawl grant mawr ac amcangyfrifir y ceir hyd at £3.4m o’r ffynhonnell hon. Mae’r rhaglenni’n mynd rhagddynt yn dda i sicrhau’r 12,000 o swyddi a ddisgwylwyd. Mae 75 cynnig wedi’u gwneud hyd yma gyda gwerth £29.039m o grantiau i greu 5455 a diogelu 1502 o swyddi, gan sicrhau gwerth £165.6m o arian preifat.

**- Gwasanaethau Cymorth Diwydiannol Amrywiol**

| | | £000oedd | |
|---|---|---|---|
| **Llinell Wario’r Gyllideb** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Gwasanaethau Cymorth Diwydiannol Amrywiol | 1,182 | 161 | 1,182 |

15. Mae’r gyllideb hon yn cynnal y gweithgareddau sy’n ymwneud â Masnach Dramor a Chysylltiadau Rhyngwladol. Eleni cynorthwyir Know-How Wales, sy’n rhan o raglen flaenagar a lansiwyd gan y Prif Ysgrifennydd ar 21 Hydref i helpu’r cysylltiadau rhwng y byd academaidd a diwydiant a’u hannog i gyfnewid syniadau. Mae’r Uned Masnach Dramor yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau rhyngwladol i fusnesau gan gynnwys trefnu teithiau masnach a gweithdai i allforwyr. Ei chyllideb eleni yw £241,000 ac o honno, roedd £78,000 wedi’i wario erbyn 30 Medi. Disgwylir gwario’r gyllideb gyfan erbyn diwedd y flwyddyn. Sefydlwyd yr Uned Cysylltiadau Rhyngwladol eleni i fod yn ffocws ar gyfer materion yn ymwneud â chysylltiadau rhyngwladol y Cynulliad. Mae’n cyfrannu at flaenoriaeth ddrafft y Cynulliad o "**godi proffil a dylanwad Cymru ar lefel ryngwladol**". Mae’n gyfrifol hefyd am gynnal a datblygu partneriaethau rhwng Cymru â gwledydd tramor. Mae’r Uned wedi gwario £45,000 hyd yma ond disgwylir y bydd wedi gwario’i chyllideb o £306,000 erbyn diwedd y flwyddyn. Mae’r gyllideb Gwasanaethau Cymorth yn cynnal hefyd y rhaglen Ymgyrch Busnes a’r Amgylchedd. Gwariwyd £39,000 hyd yma o gyllideb o £140,500. Dyma brif ffynhonnell ariannu gweithgareddau Busnes a’r Amgylchedd a disgwylir gwario’r gyllideb yn llawn.

**- Y rhaglen flaengarwch**

16. Mae’r grwp isod o gyllidebau yn helpu diwydiant i fod yn flaengar:

| | | £000oedd | |
|---|---|---|---|
| **Llinell Wario'r Gyllideb** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| REG Innovation (RIN) | 1,153 | 615 | 1,153 |
| SMART/SPUR | 1,950 | 1,006 | 1,950 |
| SMART/SPUR – gweithgareddau heb eu rhaglennu | 50 | 33 | 50 |
| Gwasanaeth Ymgynghorol Dylunio Cymru | 300 | 109 | 300 |
| Cynghorwyr Datblygu Cynnyrch a Thechnoleg | 931 | 10 | 931 |
| Cynllun Cwmni Addysgu | 678 | 212 | 678 |
| **Cyfanswm** | 5,062 | 1,985 | 5,062 |

17. Mae'r rhan fwyaf o'r grantiau a roddwyd trwy SMART a RIN yn arian a oedd eisoes wedi'i gynnig ac mae'r gwariant felly yn cyfateb i'r hyn y disgwylwyd ei wario eleni. Mae gwariant contract Gwasanaeth Ymgynghorol Dylunio Cymru yn cael ei ad-dalu iddo bob chwarter a ffigur ar gyfer chwarter 1 a ddangosir; daw ffigurau chwarter 2 i law yn y man. Mae'r Cynllun Cwmni Addysgu yn gweithio yn yr un modd, ac nid yw ffigur chwarter 2 wedi cyrraedd eto. Mae cyllideb y Cynghorwyr Datblygu Cynnyrch a Thechnoleg yn talu am nifer o fentrau: rhan-ariannu Cynghorwyr y Mileniwm, Rheoli dros Lwyddiant (gan gynnwys gwaith Cyngor Rheoli Cymru), a rhan-ariannu Know-How Wales. (yn ogystal â'r gwariant uchod, mae £0.451m o gyllideb llinell sylfaen y Cynghorwyr Datblygu Cynnyrch a Thechnoleg wedi'i drosglwyddo i Awdurdod Datblygu Cymru sy'n cyflogi'r Cynghorwyr Datblygu Cynnyrch a Thechnoleg ar ran Cyswllt Busnes).

**b) Awdurdod Datblygu Cymru**

| | | £000oedd | |
|---|---|---|---|
| **Is-grwp Gwariant** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Awdurdod Datblygu Cymru | 131,452 | 41,618 | 139,352 |

18. Mae’r Cymorth Grant y mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi’i dynnu i lawr yn adlewyrchu proffil y gyllideb. Bydd swyddogion y Cynulliad yn cynnal arolwg hanner-blynyddol ym mis Tachwedd. Mae’r Awdurdod yn cyrchu’n foddhaol at y targedau strategol o osodwyd ar gyfer eleni. Hyd yma, mae 5,908 o swyddi wedi’u creu o’u cymharu â tharged o 17,000. Denwyd hefyd £285m o arian preifat o’i gymharu â tharged o £550m. Yn y Gorllewin a’r Cymoedd y cafodd 3,713 o’r swyddi eu creu a £132m o’r cyfanswm ei fewnfuddsoddi.

**c) Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd**

| | | **£000oedd** | |
|---|---|---|---|
| **Is-grwp Gwariant** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd | 35,419 | 7,892 | 35,419 |

19. Mae Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd wedi tynnu Cymorth Grant i lawr yn unol â’r hyn a ddisgwylwyd ar gyfer blwyddyn olaf y rhaglen. Rhagwelir cyllido gwariant hanner cyntaf 1999-2000 i raddau helaeth trwy incwm gwerthu tir ac ad-daliadau o dan PFI Bute Avenue. Rhagwelir y bydd ar y Gorfforaeth angen yr holl gymorth grant sydd wedi’i neilltuo iddi ym 1999-2000 gan y bydd yr ymrwymiadau presennol yn gofyn am gryn wariant tua diwedd y flwyddyn, yn enwedig ar y Morglawdd.

**d) Bwrdd Croeso Cymru**

| | | **£000oedd** | |
|---|---|---|---|
| **Is-grwp Gwariant** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Bwrdd Croeso Cymru | 15,436 | 7,970 | 15,436 |

20. Mae gwariant Bwrdd Croeso Cymru (BCC) yn adlewyrchu’r targed a osodwyd. Mae hanner y cymorth grant wedi’i wario ar weithgareddau marchnata, yn y DU a dramor; mae’r gweddill wedi’i wario ar ymchwil a datblygu. O ran ariannu projectau cyfalaf, mae 73 o brojectau wedi’u cymeradwyo, ac mae tri neu bedwar project mawr ar y gweill. Mae lefel buddsoddi y sector preifat hefyd yn agos at y targed (£6.2 miliwn o’i gymharu â £12 miliwn), arian ysgogi (1:7 o’i gymharu â 1:4.5), creu/diogelu swyddi (262 o’u cymharu â 380) a

chanran o wariant ymwelwyr â’r DU yng Nghymru (8.2% o’i gymharu ag 8.2%).

**e) Cynllun Datblygu Strategol/Her Cyfalaf**

| | | £000oedd | |
|---|---|---|---|
| **Is-Grp Gwariant** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Cynllun Datblygu Strategol/Her Cyfalaf | 47,693 | 27,464 | 47,693 |

21. Darperir arian i awdurdodau lleol ar gyfer y cynlluniau hyn, yn bennaf ar ffurf cymeradwyaethau credyd a grantiau ar gyfer gwariant cyfalaf. Yn gynharach eleni, dyrannwyd £17.843m o dan y Cynllun Datblygu Strategol ar ffurf Cymeradwyaethau Credyd Sylfaenol. Caiff ei fonitro er mwyn sicrhau bod o leiaf 20% o wariant y project yn mynd i'r sector gwirfoddol.

22. Cynyddwyd cronfa Her Cyfalaf Cymru ym 1999-00 i £30m. (Dyfarnwyd 81% o'r £30m hwn i awdurdodau lleol o fewn ardal Amcan 1). Mae hyn yn cynnwys grant o £22.050m, Cymeradwyaethau Credyd Atodol o £7.350m (25%) a refeniw Pobl Mewn Cymunedau o £0.450m. Daw'r £0.150m sy'n weddill o gyfraniadau refeniw'r awdurdodau lleol eu hunain. Mae'r cynnydd mewn perthynas â chyllidebau fel a ganlyn:

- ni wariwyd dim o dan y gyllideb Pobl mewn Cymunedau gan fod meini prawf a threfniadau bidio dal heb eu pennu'n derfynol

- ni wariwyd dim o Grant Cyfalaf y Gronfa gan mai ym mis Tachwedd a mis Chwefror y mae’n cael ei ddyrannu. Seilir taliad mis Tachwedd ar wariant rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 1999. Seilir taliad mis Medi ar wariant rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 1999 ac ar amcangyfrif o wariant (gyda 10% wedi’i gadw yn ôl) rhwng 1 Ionawr a 31 Mawrth 2000. Mae grant o 75% ar gael, a'r 25% sy'n weddill yn denu Cymeradwyaethau Credyd Atodol.

- mae'r £7.330m a wariwyd o dan gymeradwyaethau credyd y Gronfa Her Cyfalaf, sy'n 25%, yn cynrychioli'r Cymeradwyaethau Credyd Atodol a gyhoeddwyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

- Rhoddwyd y £2.300m (100% o'r Cymeradwyaeth Credyd Atodol) i broject SDS yn y gobaith y byddai hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn y flwyddyn arianol hon.

**f) Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd**

| | | £000oedd | |
|---|---|---|---|

| **Is-Grp Gwariant** | **Llinell sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd | 9,046 | 14,396 | 35,000 |

23. Gwnaed taliadau o £14.396 miliwn yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn. Er bod y ffigur hwn yn uwch na’r llinellau sylfaen, cafwyd blaendal o dan Hyblygrwydd Diwedd Blwyddyn i gwrdd â'r taliadau hyn. Nid yw’r gwariant ar y projectau cronfa strwythuro wedi dilyn y proffil llinell syth arfaethedig; yn hytrach, fe'i gwerir yn ystod blynyddoedd diwethaf y rhaglen (1995-1999).

**g) Datblygu Economaidd Arall**

| | | **£000oedd** | |
|---|---|---|---|
| **Is-Grp Gwariant** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Datblygu Economaidd Arall | 6,654 | 245 | 8,755 |

24. Mae hwn yn cynnwys cyfres o gyllidebau. Ymysg y prif rai mae:

| | | **£000oedd** | |
|---|---|---|---|
| **Llinell Wariant o’r Gyllideb** | **Llinell Sylfaen 1999-2000** | **Gwariant ar 6 Hydref** | **Alldro tebygol ar ddiwedd y flwyddyn** |
| Cynllun Gwledig Awdurdodau Lleol | 6,150 | 0 | 6,150 |
| Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo | 0 | 0 | 1,962 |
| Groundwork Trusts | 384 | 191 | 384 |

25. Ni ddangosir unrhyw wariant o dan Gynllun Gwledig Awdurdodau Lleol oherwydd telir y grantiau (o 100%) a thaliadau ym mis Tachwedd a mis Chwefror yn y flwyddyn ariannol. Seilir taliad mis Tachwedd ar wariant gwirioneddol rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 1999. Seilir taliad mis Chwefror ar wariant gwirioneddol rhwng 1 Hydref a 31 Rhagfyr 1999

ac amcangyfrif o wariant (gyda 10% wedi'i gadw yn ôl) 1 Ionawr i 31 Mawrth 2000. Telir am wariant yr Ymddiriedolaeth Meysydd Glo arfaethedig drwy hyblygrwydd diwedd blwyddyn yn sgil tanwariant y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y Groundwork Trusts yn derbyn rhan o'u harian craidd drwy ddau daliad hanner blwyddyn a wneir fel rheol ym mis Ebrill a mis Hydref. Mae'r £191,00 sydd wedi'i dalu hyd yma yn cynrychioli taliad mis Ebrill, ac nid yw taliad mis Hydref wedi ei gwblhau hyd yn hyn. Bydd y Cynulliad yn monitro perfformiad yr ymddiriedolaethau trwy eu cynlluniau busnes tair blynedd.

**Cyllidebau Eraill o Ddiddordeb i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd**

26. Bydd y Pwyllgor yn dymuno bod yn ymwybodol, o bosib, o gyllidebau o fewn y GGM Addysg a Hyfforddiant (Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16) sy'n ariannu rhaglenni ar gyfer Cymorth Menter a Busnes. Fel rheol defnyddir y gyllideb yn llawn, gyda'r rhan fwyaf ohoni'n cael ei gwario ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r gwariant presennol yn gyson â gwariant blynyddoedd blaenorol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Llinell Wario Cyllideb<br><br>Cynnal Menter a Busnes | | | | | |
| Gwariant fesul Chwarter - 1999-2000<br><br>( Cyllideb - £13,801,000) | £000oedd | | | | |
| | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Cyf'swm |
| TECs - Sefydlu/Twf Busnesau | 1,186 | 1,365 | | | 2,551 |
| Cyswllt Busnes | 0 | 30 | | | 30 |
| Cymru Prosper Wales ac NTA | 23 | 204 | | | 227 |
| Cyfanswm | 1,209 | 1,599 | | | 2,808 |

**Camau i'r Pwyllgor eu cymryd**

29. Ni ddisgwylir i'r Pwyllgor gymryd unrhyw gamau ac mae'r papur er gwybodaeth yn unig.

**CYLLIDEBAU DAN REOLAETH YR YSGRIFENNYDD DATBLYGU ECONOMAIDD Atodiad A**

| Cyfarwyddwr Grp | GGM DATBLYGU ECONOMAIDD | |
|---|---|---|
| **Mr D W Jones** | **Cymorth Dethol Rhanbarthol a Chefnogaeth Fusnes arall** | **Cymorth Dethol Rhanbarthol (RSA):** Prif ffynhonnell cymorth ariannol i ddiwydiant. Grantiau i gwmnïau mewn Rhanbarthau Cymorth, buddsoddi mewnol neu gynhenid, i gefnogi buddsoddiad cyfalaf sydd naill ai'n creu neu'n diogelu swyddi. Dylai lefel y grant fod y lleiafswm angenrheidiol i ddiogelu'r project. Yr UE sy'n rheoli'r uchafswm a gynigir. Arweinir gwariant y grant gan angen, ac mae'n dibynnu ar gynnydd cynigion blynyddoedd blaenorol.<br><br>**Cynllun Gwarant Graddfa Gyfnewid (ERGS):** Grant i gefnogi amrywiadau graddfa gyfnewid benthyciadau UE mewn arian ac eithrio sterling. Mae'r cynllun hwn bellach wedi dod i ben ac ni ddylid gwneud unrhyw daliadau pellach ar ôl y flwyddyn hon.<br><br>**Grant Buddsoddi Rhanbarthol (RIG)/Grant Datblygu Rhanbarthol (RDG):** Cynlluniau nad ydynt bellach yn bodoli, ond y mae taliadau grant yn ddyledus iddynt. |

| | | |
|---|---|---|
| **Mr D W Jones** | **Cymorth Dethol Rhanbarthol a Chefnogaeth Fusnes arall (parhad)** | **Gwasanaethau Cefnogi Diwydiant Amrywiol (MISS):** Cefnogi amrediad o wasanaethau i ddiwydiant, gan gynnwys **hybu gweithgaredd allforio, teithiau masnach mewnol ac allanol** a datblygu **Gweithgareddau Rhanbarthol Rhyngwladol**. Bydd MISS hefyd yn cynnwys y fenter **Gwybod Sut,** sef un o brif strategaethau'r ddogfen Llwybr i Ffyniant. Nod y fenter yw gwella mynediad at ffynonellau gwybodaeth ac arbenigedd technegol ac ymchwil ym mhrifysgolion a cholegau Cymru, ac yn ehangach na hynny, mae'n rhan ganolog o strategaeth y Llywodraeth i wella cysylltiadau diwydiannol/academaidd a throsglwyddo technoleg.<br><br>**Ariannu Blaengarwch**<br><br>**a) Grant Blaengarwch Rhanbarthol:** Mae'n darparu grant o hyd at £25,000 i ddiwydiant, ar gyfer projectau sy'n hyrwyddo blaengarwch.<br><br>**b) Cynllun Cwmni Addysgu (TCS):** galluogi i brojectau trosglwyddo technoleg gael eu hariannu rhwng busnesau o Gymru a sefydliadau academaidd.<br><br>**c) Gwasanaeth Ymgynghorol Dylunio Cymru (WDAS):** rhoi cyngor a chyfarwyddyd annibynnol yn rhad ac am ddim i fusnesau Cymru ar ddylunio a dethol deunyddiau.<br><br>**Ch)Ymgynghorwyr Blaengarwch a Thechnoleg (ITC):** rhoi cyngor a chyfarwyddyd yn rhad ac am ddim i fusnesau Cymru ar amrediad eang o faterion blaengarwch a thechnoleg. Er enghraifft, mae wyth o **Ymgynghorwyr Mileniwm** wedi'u penodi i roi cyngor a chyfarwyddyd am ddim i fusnesau Cymru ar broblemau newid dyddiad cyfrifiaduron yn y flwyddyn 2000. Ceir cyllideb **Rheoli Llwyddiant** hefyd o fewn ITC sy'n caniatáu i'r adran barhau i gyflwyno rhaglenni penodol ar weithgareddau Arferion Gorau i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Un o'r ffefrynnau yw'r Rhaglen "Tu Mewn i Ddiwydiant Cymru". |

| | | |
|---|---|---|
| **Mr D W Jones** | **Cymorth Dethol Rhanbarthol a Chefnogaeth Fusnes arall (parhad)** | **d) SMART/SPUR** - Cyflwynwyd y cynlluniau hyn ym 1986 i feithrin blaengarwch mewn cwmnïau yng Nghymru trwy roi cefnogaeth ariannol i'r rhai sydd am ddatblygu cynnyrch a phrosesau blaengar newydd. |
| | **Datblygu Economaidd Arall - Cyfalaf Mentro** | Cyfran Cymru o gronfa Fenter y DU |

| | | |
|---|---|---|
| **Mr M J A Cochlin** | **Awdurdod Datblygu Cymru** | Defnyddir cyllideb y WDA ar gyfer datblygiad economaidd a chymdeithasol Cymru. Ariennir yr Awdurdod o arian y Llywodraeth ganolog ac o arian y mae'r WDA ei hun yn ei greu. |
| | **Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd** | Defnyddir cyllideb y Gorfforaeth i adfywio ardal y Bae yng Nghaerdydd, â'r bwriad o wella delwedd a lles economaidd Caerdydd a Chymru gyfan. Bydd y Gorfforaeth hefyd yn paratoi i gael ei diddymu ar ddiwedd Mawrth 2000. |
| | **Bwrdd Croeso Cymru** | Noddi Bwrdd Croeso Cymru: Gwariant Marchnata, Grantiau Cyfalaf, Ymchwil a Datblygu. Cynnwys costau cynnal o £4.211m |
| | **Cronfa Llwybr i Ffyniant** | Datblygu mentrau ar draws y Cynulliad i sicrhau'r weledigaeth a nodwyd yn yr agenda economaidd, er enghraifft hyrwyddo mesurau cefnogi busnesau, gan gynnwys y posibilrwydd o Fanc Datblygu Cenedlaethol, a phrojectau addysg a hyfforddiant. |
| | **SDS/Her Cyfalaf** | **Cynllun Datblygu Strategol (SDS):** Arian cyfalaf a refeniw wedi'i ddirprwyo i awdurdodau lleol i gefnogi strategaethau adfywio lleol. Ym 1999-00, dosbarthwyd yr arian hwn fel rhan o brif setliad refeniw yr awdurdodau ac fel cymeradwyaethau credyd sylfaenol. Mae gofyn i awdurdodau ddangos bod o leiaf 20% o'r arian yn cael ei roi i brojectau sector gwirfoddol. |
| | | **Her Cyfalaf:** Mae arian Her Cyfalaf Cymru yn cael ei glustnodi, yn bennaf, ar gyfer projectau cyfalaf awdurdodau lleol. Mae awdurdodau yn cyflwyno strategaethau ardaloedd lleol neu brojectau mawr mewn cylch blynyddol o wneud cais am arian. Y ceisiadau llwyddiannus yw'r rhai a oedd, ochr yn ochr â set o feini prawf, yn hybu ffyniant economaidd, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig. Ym 1999-00, dyrannwyd £1m o'r arian a oedd ar gael (cymysgedd o refeniw a chyfalaf yn yr achos hwn) i brojectau addas yn yr wyth ardal beilot 'Pobl mewn Cymunedau'. Mae grantiau her yn cefnogi 75% o'r gwariant, a rhoddir cymeradwyaethau credyd atodol i ddelio â gweddill y costau cyfalaf. |
| | **Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop** | Bwriad Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewrop (ERDF) yw lleihau'r anghydbwysedd rhanbarthol yn y Gymuned a chynorthwyo rhanbarthau difreintiedig, yn arbennig yr ardaloedd llwm sy'n wynebu problemau ailstrwythuro a dirywiad diwydiannol ac ardaloedd gwledig. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Cynlluniau Datblygu Economaidd - Gwledig eraill** | Grantiau cyfalaf 100% a ddirprwyir i awdurdodau lleol i gefnogi cynlluniau bach gwledig yn eu hardaloedd. Mae gofyn i Awdurdodau Lleol wahodd ceisiadau, gan roi blaenoriaeth i ardaloedd gwledig. Yr ardaloedd hynny y tu allan i ffiniau hen ardal Bwrdd Datblygu Cymru Wledig a'r rhai ag o leiaf rhywfaint o'r rhanbarth Amcan 5b o fewn eu ffiniau sy'n gymwys am y grantiau hyn.<br><br>Nod Cynllun Gwledig yr Awdurdodau lleol yw hybu ystod o brojectau ecenomaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Dirprwyir arian drwy gyfrwng fformwla i saith awdurdod "gwledig" sef Ynys Môn; Sir Gaerfyrddin; Conwy; Sir Ddinbych; Gwynedd; Sir Benfro; Wrecsam. Yr Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am wahodd bidiau am arian a'r Cynulliad sy'n monitro gwariant cyffredinol yn unol â'r hyn a ddyrennir gan awdurdodau lleol, ac yn monitro i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r canllawiau ar weinyddu'r cynllun. |

**GGM DATBLYGU ECONOMAIDD: CYSYLLTIADAU GYDA BLAENOROAETHAU A GWERTHOEDD Atodiad B**

| Grwpiau Gwariant | Gwell Cyfleoedd Gwaith | Mewn Partneriaeth | Yn Gynwysiedig |
|---|---|---|---|
| **Cymorth Dethol rhanbarthol a Chefnogaeth Fusnes arall**<br><br>- Cymorth Dethol Rhanbarthol<br><br>- Blaengarwch (SMART, SPUR, RIN, TCS, WDAS, ITC etc)<br><br>- Gwasanaethau Cefnogi Diwydiant Amrywiol (MISS) (Gwasanaethau Cysylltiadau Rhyngwaldol a Masnach Tramor) | X<br><br>X<br><br><br><br>X | X<br><br>X<br><br><br><br>X | <br><br>X<br><br>X |
| **Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd** | X | X | |
| **Awdurdod Datblygu Cymru** | X | X | X |
| **Bwrdd Croeso Cymru** | X | X | X |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llwybr i Ffyniant** | **X** | **X** | **X** |
| **SDS/Her Cyfalaf** | **X** | **X** | **X** |
| **Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd** | **X** | **X** | **X** |
| **Datblygu Economaidd Arall** | **X** | **X** | |
| - Cynlluniau Gwledig | | **X** | **X** |
| - Ymddiriedolaethau Sefydlu | | **X** | **X** |
| - Ymddiriedolaeth Adfywio Meysydd Glo | | | |